"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

# YMOFYNYDD

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1888. [RHIF 5.

CYNNWYSIAD.

| | TUD. |
|---|---|
| Y Moddion Goreu i gael Diwygiad yn yr Ysgol Sabbothol | 97 |
| Capel y Llwyn | 100 |
| Undodiaeth yn Nghymru | 100 |
| Y Parch. Samuel Jones, Capel Seion | 104 |
| Angel yn ddiarwybod | 105 |
| Mynegfys | 108 |
| Y Cyfarfodydd Chwarterol | 109 |
| Nodynau Gwasgarog | 111 |
| Manion a Hanesion | 118 |
| Marwgofion | 118 |

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

# YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1888. [RHIF 5.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

## Y MODDION GOREU I GAEL DIWYGIAD YN YR YSGOL SABBOTHOL.

[PARHAD O'R RHIFYN DIWEDDAF.]

(*Buddugol yn Nghyfarfod Cystadleuol Llwynrhydowen, Chwef.* 24, 1888.)

GAN MR. J. R. THOMAS, PENUWCH.

SYLWN yn awr ar ychydig o'r dyledswyddau a syrthiant yn benaf i ran ein

HATHRAWON

i'w cyflawnu. Y mae yn fantais ar lawer ystyr etto i gael dau athraw ar bob dosparth, ac am yr un rhesymau a nodwyd, dros gael dau arolygwr. Swydd athraw yw y fwyaf pwysig yn yr Ysgol. Fel y bydd llafur a llwyddiant yr athraw, felly y bydd llewyrch yr ysgol a chyssondeb yr aelodau. Clywsom ambell athraw yn gofyn i w ddosparth cyn dechreu ar y gwaith, "B'le ry'n ni i fod i ddarllen heddy'?" O! y fath drueni. Pa ryfedd fod dim blas a chynnydd? Ereill ni wnaut fawr o ddim ond ceisio gan yr aelodau holi yn eu tro. Cyn y gall yr athraw lenwi ei swydd yn briodol y mae yn ofynol iddo yn (1) ofalu am barotoad blaenorol, a meistroli yn drwyadl y wers fyddo dan sylw. Heb y rhagbarotoad hwn, ni fydd yn alluog i wneyd un math o gyfiawnder a'r dosparth yn ystod yr amser byr at ei wasanaeth. Er ei gynnorthwyo yn hyn, y mae yn ofynol fod ganddo lawer o lyfrau addas, y rhai a ddylai ddarllen yn ei oriau hamddenol yn ystod yr wythnos. (2) Nid yw yn ddigon ei fod yn deall y pwnc hwn: mae

eisieu iddo ystyried pa fodd i gyfranu ei wybodaeth yn y fath fodd fel ag i fod yn addasedig (*suitable*) i ddeall ac amgyffred y rhai sydd dan ei ofal, a gwneuthur hyn oll yn y modd mwyaf dyddorol, fel y byddo ei aelodau bob amser yn *hoffi* dod i'r Ysgol. (3) Dylai roddi math o fraslun o'r wers, fel y gallo yr hwn nad yw yn gwybod dim am dani gael golwg glir ar y pwnc yn ei wahanol gyssylltiadau. Cyffroa hyn ei *interest*, a chrea awydd ynddo i chwilio, a meddwl, a barnu drosto ei hun, a rhagbarotoi ar gyfer gwaith y Sabbothau dyfodol. (4) Ni all neb ddysgu i arall yr oll a wyr. Rhaid i'r athraw wybod llawer mwy nag a arfaetha gyfranu i'w ysgolheigion, a geilw hyn am lawer o ystyriaeth a medr i ddethol y cyflenwad o addysg a fwriada gyflwyno i sylw ei ddosparth, a pha gynllun a gymmera i arlwyo y meddwl a'r cyflenwad hwn yn y modd mwyaf dyddorol, fel ag i sicrhau gwrandawiad astud a budd yn ol llaw. (5) Defnyddier y pum' munyd olaf i adsymio (*recapitulate*) yr oll a ddysgwyd. (6) Buddiol iawn hefyd i'r athraw fyddai parotoi, yn achlysurol, ychydig o sylwadau pwrpasol ar brif bwynt yr hyn fyddo dan sylw, megys y niwed o "falchder" oddiwrth gymmeriad y Phariseaid; y modd y mae yr hâd yn cael ei gipio gan adar y nefoedd a'i dagu gan y drain; annog i beidio esgeuluso y weithred o drugaredd a charedigrwydd oddiwrth ddammeg y Samaritan trugarog, &c. Trwy hyn, caiff gwerth a phwysigrwydd yr hyn a ddysgir ei ddwyn adref at y meddwl, ei sylweddoli gan yr amgyffrediad a'r teimlad, a bydd yr argraff yn fwy dwfn a pharhaol, a thrwy hyny, bydd yn gymhelliad cryfach iddynt osod yr egwyddorion hyn mewn gweithrediad pan ddaw yr amgylchiad a'r cyfleusdra i wneyd hyny. (7) Gofaled hefyd yn wastad ddefnyddio geiriau a brawddegau syml a hawdd eu deall, fel y byddo i'r iselaf yn y dosparth dderbyn y lleshad priodol. (8) Bydded i'w ymddygiad fod bob amser yn siriol a deniadol, yn foneddigaidd, yn addfwyn, yn hynaws, ac yn amyneddgar, fel y byddo i'w aelodau deimlo rhyw hyfrydwch nas gallant 'mo'i hebgor o fod yn gysson yn eu lle. (9) Etto, y mae yn ddyledswydd arbenig ar bob athraw i wneyd yr oll a allo i chwyddo nifer ei ddosparth, trwy ymdrechu sicrhau presenoldeb y rhai hyny na fynychant yr Ysgol o gwbl. Mae rhy fach o gymhell yn hyn. Y moddion mwyaf effeithiol i'w denu fyddai ymweled â hwy yn bersonol, a cheisio dangos y lles a'r pleser a gaent pe rhoddent brawf arni. (10) Dylai hyfforddi ei aelodau pa fodd i ragbarotoi ar gyfer y wers nesaf—pa esponiadau i'w darllen, pa le i'w cael, &c. Byddai yr *home lessons* hyn yn gymhelliad nid bychan iddynt fod yn llafurus yn eu cartrefleoedd. Ond rhagor ar hyn etto.

Sylwn yn awr ar ddyledswyddau yr

AELODAU.

(1) Astudio y wers mor dda ag y gallont cyn dyfod i'r dosparth. Bydd hyn yn gymhorth i ddeall a gwerthfawrogi y sylwadau ychwanegol a adgyflenwir gan yr athraw, ac yn ffynnonell adnewyddol o fwynhad wrth adolygu yr hyn a wnaed eisoes. Adgofir yr hyn a ddarllenwyd.

Rhydd hyfdra a chalonogaeth i ateb gofyniadau a gwneuthur sylwadau pan ofynir iddynt. Cofiant yn well unrhyw nodiadau na ddarfu iddynt ddarllen dim yn eu cylch, a byddant gyda mwy o awyddfryd yn craffu ar bob eglurhad ar y rhanau hyny ag oeddynt yn dywyllion ac aneglur iddynt o'r blaen. (2) Peidio tori ar draws y rheolau a'r dull o gario gwaith y dosparth yn mlaen, ond cymmeryd y gofal manylaf i fod yn ddarostyngedig iddynt, fel ag i fod bob amser y tu fewn i derfynau y rheol arferedig. (3) Peidio siarad gormod ac i ddim pwrpas. (4) Peidio ateb gofyniadau ond yn eu tro. (5) Pan yn ateb gofyniad ar ol un fyddo wedi methu, gwelir ambell un weithiau yn gwneyd hyny gyda rhyw wên fuddugoliaethus, fel pe am alw sylw at uchafiaeth a rhagoriaeth ei wybodaeth ar ei flaenorydd. Bydder yn wyliadwrus rhag rhoddi tramgwydd i neb, a gocheler pob math o ymddygiad fyddo â thuedd ynddo i gael ei ddeongli yn anfoneddigaidd. (6) Taler y parch uchaf i'r athrawon drwy dalu sylw i'r hyn fyddo yn cael ei ddweyd. (7) Peidier tori ar draws un fyddo yn siarad. (8) Cadwer rhag cyndynddadleu yn y dosparth. Mae hyn yn annhrefnu ac yn terfysgu pobpeth. Caniataer perffaith ryddid barn, a bydded pob un yn sicr yn ei feddwl ei hun; ond ni ddylai neb ddibrisio a diystyru y farn a goleddir gan arall, gan nad pa mor afresymol yr ymddengys iddo, a pheidied neb â cheisio gwthio eu barnau ar ereill. (9) Prif amcan pawb ddylai fod, ceisio addysgu y naill y llall yn y modd mwyaf dedwydd, fel y byddo y gwaith yn hyfrydwch ac yn attyniad cysson i bob aelod.

Cynnygir ychydig sylwadau etto ar

DDYLEDSWYDDAU

ein gweinidogion mewn cyssylltiad â'r Ysgol Sul. Nid oes amheuaeth nad yw ein gweinidogion bron yn ddieithriad yn weithwyr caled a diwyd. Gwneir ymdrechion canmoladwy ganddynt i egluro y Ffydd Undodaidd ar faes Yr Ymofynydd. Maent yn uwch fel *class* nâ'u brodyr Trindodaidd. Mae mwy o'r *graddio* yn eu plith. Mae eu pregethau hefyd yn fwy pur, chwaethus, ac ymarferol. Sylwasom, gyda hyfrydwch weithiau, fel y mae y gwrandawyr yn cael blas arnynt. Efallai fod y gwair yn rhy uchel i gyfangorff y gynnulleidfa ar adegau. Etto, goddefer i ni grybwyll eu bod yn ddiffygiol mewn rhai elfenau ag sydd yn hanfodol er hyrwyddo llwyddiant a chynnydd yr Undodiaid fel enwad. Gellir dweyd, ar ryw olwg, eu bod yn ormod o ddynion y llyfrau a'r pregethau. Mae amryw o honynt fel pregethwyr yn gewri mewn gallu a hyawdledd. Ond y mae yn ffaith fod talentau pregethwrol tra chyffredin yn fynych yn cynnyrchu eglwysi cryfion a blodeuog, ac o'r tu arall, fod llawer eglwys yn hollol ddilun a dilewyrch yn nghanol pregethau rhagorol—pregethau gwerth eu trosglwyddo i'r oesoedd a ddelont. Mae eisieu rhyw elfenau mewn gweinidogion heblaw eu galluoedd fel cenadwyr cyhoeddus o'r pwlpud. Rhaid iddynt ymgydnabyddu â'u cynnulleidfaoedd, a chymmeryd dyddordeb yn eu holl weithrediadau, a rhoddi pob cynnorthwy iddynt er eu gwneuthur yn fwy llafurus a blodeuog fel cynnulleidfaoedd, ac fel Ysgol Sul.

Bydded iddynt edrych i fewn er chwilio a chael allan pa fodd y cerir y sefydliad hwn yn mlaen, a dwyn sylw yr Ysgol at lyfrau o ddybenion neilldual. Nid ydyw yn ddigon i *advertiso* y cyfryw ar dudalenau Yr Ymofynydd. Dylid crybwyll am danynt o'r pwlpud, egluro eu hamcan, a'r lles a ddeuai o'u hastudio, a pha fodd i'w meistroli. Dangoser y llyfr, a chymheller pawb i'w brynu. Mae rhy fach o gymhell; gadewir i bawb wneyd fel y byddo yn dewis, neu fel y mae wedi arfer gwneyd. Trwy eu gwybodaeth a'u profiad, galluogir ein gweinidogion i roddi llawer o awgrymiadau buddiol a fyddont o wir fendith mewn llawer amgylchiad.

(*I'w barhau.*)

---

## CAPEL Y LLWYN.

Mewn ardal boblogaidd ar lechwedd y dyffryn,
Ar lanerch dra phrydferth, saif Capel y Llwyn;
Yn hardd-deg gofadail dan erlid tra sydyn
Gyfodwyd i'r eglwys yn nodded bur, fwyn.

Er ymgais faleisus dyhirwyr erlidgar
I sathru yr eglwys a'i lluddias am dro,
Trwy gloi yr addoldy a'i tharfu ar wasgar,
Heb fan i ymgynnull, heb gysgod nâ tho,

Mae heddyw'n flodeuawg, a'i ffriw yn llewyrchus,
Gorchfygodd holl rwystrau dig ألon llawn brad;
Medd harddwych addoldy, ymdeithia yn hwylus,
Yn uchel ei moliant, dan nodded y Tad.

Mwynhad o lonyddwch a gaiff o hyn allan,
Nis gall erlidigaeth i drallod ei dwyn;
Tra'r ddaear yn cylchdroi o amgylch yr huan,
Boed sain yr Efengyl yn Nghapel y Llwyn.

Gwion.

---

## UNDODIAETH YN NGHYMRU.—II.

Yn yr erthygl ddiweddaf ar y pwnc hwn, rhoddwyd desgrifiad o sefyllfa ein hachosion yn Nghymru; a swm a sylwedd y desgrifiad hwn ydoedd, fod genym ar hyn o bryd oddeutu ugain o gapeli yn meddu ar gynnulleidfaoedd mwy neu lai llewyrchus, oddeutu deg yn adfyw, a phedwar wedi eu cau; a hyn oll yn ngwyneb y ffaith fod Undodiaeth bellach wedi bod yn cael ei phregethu am yn agos i ganrif o amser. Ac o'r nifer hwn y mae rhan fawr wedi eu sefydlu cyn dechreu y ganrif bresenol; ac mor bell ag yr wyf wedi cael allan, nid oes ond oddeutu

hanner dwsin o achosion newydd wedi eu sefydlu ar ol y flwyddyn 1860, ac y mae un o'r cyfryw wedi ei gau. Y mae yn anhawdd gwybod i ba beth y mae i ni gyfrif am y methiant hwn—o herwydd beth arall ellir ei alw—sydd wedi canlyn pregethiad ein syniadau yn mhob man; oblegyd y mae sefyllfa Undodiaeth yn mhob man bron yr un fath, yn mhell o'r hyn ddylai fod. Yn Lloegr, er enghraifft, nid yw nifer ein capeli yn llawn tri chant; ac y mae bron yr un fath mewn manau ereill. Y mae yn amlwg nas gellir priodoli'r aflwyddiant hwn i ddiffyg moddion i gario'r gwaith yn y blaen, o herwydd yr ydym wedi cael profion amlwg, yn Lloegr, fodd bynag, fod digonedd o gyfoeth at wasanaeth ein hachos pa bryd bynag y mae galw am hyny; ac nid wyf yn credu hefyd y buasai Undodiaid Cymru ar ol, pe y cawsent ar ddeall fod yr achos at yr hwn y gofynir eu cynnorthwy yn un teilwng. Ac nid wyf yn gweled y gallwn ychwaith ei briodoli i ddiffyg sêl a gweithgarwch a brwdfrydedd dros egwyddorion Undodiaeth ar ran ein cyn-deidiau, yn ogystal ag ar ein rhan ein hunain; oblegyd, pwy mor ffyddlon, mor wresog, mor barod i aberthu dros Undodiaeth a'r hen weinidogion; ac y mae'r dô bresenol etto, fel y credaf, yn llawn mor weithgar a selog dros eu hegwyddorion, ac felly, nis gellir cael gafael yn yr achos o'n methiant fel enwad yn y cyfeiriadau hyn. Y mae un achos o hono, yn ddiamheu, i'w gael yn hyn: yn y gorphenol, yr oedd gormod o bwys yn cael ei osod ar y *negative side* o Undodiaeth, a rhy fach ar y *positive side*. Yr oedd apostolion Undodiaeth yn y gorphenol yn ymfoddloni ar bregethu yn erbyn yr athrawiaethau iawnffyddol yn unig, ac yn gadael i'r syniadau a broffesent hwy eu hunain o'r neilldu yn ormodol. Ac y mae hyn, yn sicr, wedi bod yn rhwystr mawr ar ffordd cynnydd Undodiaeth fel enwad hyd yma; o herwydd nid oes gan amheuon a phethau cyffelyb un swyn neilldduol i'r galon ddynol yn gyffredin. Dichon fod achosion ereill i gyfrif am ein methiant; ond hwn, yn ddiamheu, ydyw y penaf. Ac os felly, yna gallwn ddysgwyl y bydd gan ein hachos siawns i wneyd mwy o gynnydd yn y dyfodol, gan fod cymmeriad ein pregethau erbyn hyn wedi cyfnewid i raddau helaeth; ac yr ydys yn awr yn gosod y pwys mwyaf, nid ar yr ochr negyddol, ond ar yr ochr gadarnhaol i'n syniadau.

Ac yn awr, yn ngwyneb yr argoelion ffafriol a gobeithiol hyn sydd heddyw yn dechreu gwawrio arno gyda golwg ar ein dyfodol, y mae yn bryd i ni wneyd rhywbeth er ceisio gwella a chryfhau ein hachosion presenol, a helaethu terfynau ein gweithrediadau fel enwad. Ar ddiwedd yr erthygl diweddaf, dywedais fod eisieu mwy o *organization*—mwy o drefn—yn ein plith nag sydd yn awr, ac y buaswn yn galw sylw at y mater yn yr erthygl hon, ac yr wyf yn cyflawnu fy addewid. Nid oes neb a wâd nad oes eisieu mwy o drefn yn ein plith fel enwad; ac y mae ein diffyg yn y cyfeiriad hwn i'w ganfod yn eglur neilldduol pan yr edrychwn o'r tu allan i'n cylch ni ein hunain ar ddulliau ein brodyr iawnffyddol o gario yn mlaen eu hamrywiol weithrediadau,—ein brodyr y Wesleyaid neu'r Methodistiaid, er enghraifft. Ac y mae yn ddiamheu genyf fod y llwyddiant mawr sydd wedi canlyn ymdrech-

ion y ddau enwad parchus hyn i'w briodoli yn benaf i'r drefn fawreddog sydd yn rhedeg trwy yr oll o'u gweithrediadau. Ac felly, os oes diwygiad i gymmeryd lle yn hanes ein henwad bychan, y mae yn amlwg fod rhaid i ni yn gyntaf gael mwy o drefn i gario yn mlaen ein gweithrediadau. Y mae'r mater hwn ar hyn o bryd yn tynu cryn dipyn o sylw yn mhlith ein brodyr yn Lloegr; a chyn y gwna'r geiriau hyn eu hymddangosiad, bydd y pwnc hwn wedi cael ei drin yn fanwl ganddynt yn eu cynnadledd yn Leeds, pryd y darllenir papyr arno gan yr Hybarch Ddr. Martineau. Y mae yn anhawdd gwybod beth fydd y cynllun a osodir gerbron y gynnadledd ganddo, ond gobeithio na adewir i'r mater fyned heibio yn ddisylw ar ol hyny, gan ei fod yn un mor bwysig.

Yn awr, ynte, pa beth sydd yn eisieu arnom ni yn Nghymru? Yn gyntaf oll, y mae arnom eisieu rhywbeth i ddwyn ein heglwysi i undeb agosach â'u gilydd. Ar hyn o bryd y maent yn amddifad o unrhyw gyfrwng o'r fath, sef cyfrwng i'w huno â'u gilydd, ac i'w dwyn i gydweithredu er lledaenu'r syniadau sydd yn anwyl ganddynt. Ac er cyweirio'r diffyg hwn, credaf y dylai rhyw fath o gymdeithas gael ei sefydlu yn ein plith. Y mae gofod yn rhy brin yn bresenol i ymhelaethu ar y mater hwn. Ond gwnaf nodi allan yn fyr rai o'r cyfeiriadau yn y rhai y buasai'r fath gymdeithas yn ddefnyddiol. Yn gyntaf, gellid dwyn allan lyfrau yn ymdrin â'r gwahanol syniadau a goleddwn dan nawdd y gyfryw, yr hyn sydd yn ddiffyg mawr yn ein plith yn awr. Ychydig iawn o lyfrau gwir ddefnyddiol sydd genym yn Gymraeg yn bresenol; ac y mae y rhai sydd genym, y rhan fwyaf o honynt, wedi eu cyhoeddi gan bersonau ar eu cyfrifoldeb eu hunain, ac yn fynych er colled iddynt eu hunain mewn ystyr arianol, fodd bynag. Ac hyd yn ddiweddar, anfynych iawn y dygid hyny o lyfrau sydd genym i sylw y cyhoedd. Ond y mae hyn wedi ei gyfnewid i raddau yn ddiweddar, trwy fod y cyfeillion James a Jones wedi agoryd eu *book-stall* yn ystod ein gwahanol gynnadleddau. Ac y mae yn debyg fod yr anturiaeth wedi troi allan yn llwyddiannus. Ond, er gwaethaf hyn, nid yw ein llyfrau etto yn cael eu dwyn i sylw'r cyhoedd fel y dylent; a chredaf y gellid gwella hyn i raddau helaeth trwy gyfrwng cymdeithas. Yna, buasai yn ddefnyddiol mewn amrywiol gyfeiriadau ereill; pan y mae ein pwlpudau yn myn'd yn wag, os bydd y gynnulleidfa yn dygwydd bod yn wan, esgeulusir yn fynych appwyntio un yn ei le; ac y mae difaterwch yn canlyn hyn bron yn ddieithriad; dyma sydd yn cyfrif am sefyllfa isel ein hachosion yn Sir Gaerfyrddin. Ac esgeulusir llanw y pwlpudau, nid o herwydd nad ydynt yn ewyllysio gwneyd hyny, ond o herwydd eu bod yn analluog. Byddai cymdeithas yn ddefnyddiol yn y cyfeiriad trwy ofalu nad oes un o'n pwlpudau yn cael ei adael yn wag, a chynnorthwyo cynnulleidfaoedd yn y cyfeiriad hwn. Yna hefyd, yn ychwanegol at y gwaith o gryhau cynnulleidfaoedd gweinion, dylai enwad sydd yn credu fod ganddo wirioneddau mwy rhagorol nag un enwad arall, geisio helaethu cylch ei weithrediadau, fel y gallo yn hawddach eu taenu; neu, mewn geiriau ereill, dylai ymdrechu sefydlu achosion newyddion. Y mae yn Nghymru yn

bresenol amryw o leoedd pwysig lle na cheir un capel Undodaidd, megys Llandeilo, Aberystwyth, ac amryw leoedd ereill nad oes angen eu henwi. Y mae genyf resymau neillduol dros enwi y ddau le uchod. Caf gyfeirio at y lle cyntaf ychydig yn nes yn mlaen. Y mae Aberystwyth yn gartrefle i un o Brif Ysgolion Cymru, ac yn sicr, ni ddylai un dref o'r fath fod heb gapel Undodaidd. Ac yn mhellach, nid wyf yn credu llai na allesid, gydag ychydig o ymdrech, sefydlu achos yn y lle. Ond yn sefyllfa presenol pethau, ofnaf nad oes nemawr o obaith, gan ein bod fel yr ydym, bron yn hollol *helpless*. Pe buasai genym gymdeithas, gallai hon, efallai, wneyd rhywbeth yn y cyfeiriad hwn. Mewn atebiad i'r sawl a ddywedant ac a ofnant y buasai y fath gymdeithas yn cyfyngu ar ein rhyddid presenol, yr hwn sydd mor anwyl i ni, dywedaf nad wyf yn credu fod eisieu i ni ofni dim o'r fath beth; o herwydd ni fyddai y fath gymdeithas yn ceisio gwneyd dim yn ychwaneg nâ chael mwy o gydweithrediad rhyngom â'n gilydd a chyfanrwydd ynom fel enwad, a buasai pob un yn hollol rydd i feddwl a chredu fel yr arweinid ef gan ei gydwybod a'i reswm i wneyd, fel ag yn bresenol. Bwriadaf ddychwelyd at y pwnc etto yn y dyfodol.

Cyn terfynu, dymunaf wneyd un sylw mewn cyssylltiad â Llandeilo. Cofus gan y darllenydd i mi ddweyd, yn yr erthygl ddiweddaf, fod ein capel yn yr Onenfawr, o herwydd afiechyd y gweinidog, wedi ei gau. Erbyn hyn, y mae Mr. Evans wedi ein gadael, ac nid yw yn debyg yr agorir y capel mwyach, yn ol yr arwyddion presenol. Clywais, yn ddiweddar, fod yn mwriad rhai o'r cyfeillion sydd yn dal cyssylltiad â'r Onenfawr i'w werthu. Nis gwn ai gwir hyn ai peidio; ond yr wyf yn gobeithio y gwnant aros am ychydig cyn gwneyd hyny, er cael gweled a ydyw ddim yn bossibl gwneyd rhyw drefniadau ereill. Dywedais o'r blaen y dylid gwneyd ymdrech i sefydlu achos yn nhref Llandeilo, a dymunaf etto yn garedig dynu sylw y cyfeillion yno at yr awgrymiad hwn. A ydyw yn anmhossibl gwneyd *experiment*, dyweder, am oddeutu chwe' mis neu ragor? Credaf y gwnelai'r gweinidogion Cymreig, yn ogystal a gweinidogion ein capeli Seisnig yn Nghymru, bob peth o fewn eu gallu i wneyd yr ymdrech yn llwyddiannus, ac nid wyf yn credu llai hefyd na wnai ein gwahanol gynnulleidfaoedd eu cynnorthwyo i ddwyn y treuliau cyssylltiedig â hyn. Ac yna, os gwelid fod arwyddion am achos yn y lle, gellid gwneyd parotoadau pellach, ac yn yr amgylchiad hwn, gellid cadw yr achos yn yr Onenfawr yn fyw. Wrth gwrs, nid wyf yma yn gwneyd dim yn rhagor nag awgrymu yr hyn a gredaf a ddylid ei wneyd; ond gobeithio na fydd yr awgrymiad yn cael ei daflu o'r neilldu yn ddisylw.

Gadawaf y pwnc hwn yn bresenol, gan obeithio allu dychwelyd ato yn y rhifyn nesaf. Ond cyn terfynu, mewn math o atebiad i'r amrywiol feirniadaethau sydd wedi eu gwneyd yn fy nghlywedigaeth (yn ddiarwybod i'r barnwyr, wrth gwrs,) ar yr erthygl ddiweddaf, dymunaf ddweyd, er gwaethaf eu hanmherffeithderau, fy mod yn ysgrifenu y gyfres hon yn gyfangwbl oddiar y dymuniad i weled rhyw ddeffroad yn cymmeryd lle yn ein plith, a chyda'r gobaith y byddant yn foddion i ryw raddau i ddwyn hyny oddiamgylch. A. B.

## Y PARCH. SAMUEL JONES, CAPEL SEION.

Mae Dr. Thomas Rees *(Hist. of Noncon. in Wales)* yn enwi gweinidog Capel Seion, Llanddarog; Mr. Samuel Thomas, Caerfyrddin; Mr. Roger Howell, Gellionen, fel rhai yn cydymdeimlo â Jenkin Jones, Llwynrhydowen, yn ei syniadau. O herwydd hyny, yr wyf yn tybied y gall ychydig sylwadau am dano fod yn ddyddorol i ddarllenwyr Yr Ymofynydd. Barna Dr. Rees i Samuel Jones gael ei eni yn Mhlwyf Llanedi, ac iddo gael ei addysgu yn Ngholeg Caerfyrddin, yn rhanol dan Mr. William Evans, ac yn rhanol dan Mr. Perrot. Yr oedd gofal y Coleg ar Mr. Evans o 1708 hyd 1718, ac ar Mr. Perrot o 1719 hyd 1733. Os gwir yr awgrymiad yn nghylch y personau a'i haddysgasant, mae yn anhawdd gweled sut yr oedd yn cydweinidogaethu â Christoducius Lewis yn 1715, y flwyddyn yr ymadawodd Mr. Lewis â Chapel Seion. Mae Dr. Rees yn sicr ei fod yno yn 1730—51, am fod ei enw yn mhlith y rhai oeddynt yn derbyn cynnorthwy o'r Drysorfa Bresbyteraidd. Cadwai ysgol yn Pentwyn. "Cyhuddid ef o fod yn gogwyddo at Arminiaeth, ac y mae yn sicr i'r eglwys mewn adeg ddiweddarach gael ei lefeinio yn fawr â'r golygiadau hyny." Rhoddodd Mr. Jones i fyny ei ofal hwn tua 1751, gan gyfyngu ei lafur i'r Mynyddbach (*Eg. An.* III. 507). Yn mhlith y rhai a fuont yn ei ysgol, enwir y Dr. Richard Price (1723—1791), cyfaill Dr. Priestley; Owen Rees (1717—1768), gweinidog cyntaf Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar, a thad Josiah Rees, Gellionen; a Thomas Morgan (1720—1799), Henllan. Mae Dr. Rees yn cael sail i'r dybiaeth fod Mr. Jones yn tueddu at Arminiaeth yn y ffaith fod Mr. Edmund Jones yn groes i Thomas Morgan fyned i'w ysgol; a'i fod yn traddodi y siars ar urddiad Mr. David Lloyd yn 1745, ac mae yn hyspys mai canlyniedydd Mr. Jenkin Jones, yr Arminiad, oedd Mr. Lloyd. Pa fodd bynag, gorfodir Dr. Rees i gyfaddef "fod Mr. Jones yn ddyn difrifol a chrefyddol iawn." Mae Thomas Morgan, wrth son am ei fynediad i ysgol Mr. Jones, yn dywedyd, "Tua thri o'r gloch yn y prydnawn, cychwynasom o Abertawy, a chyrhaeddasom Bentwyn, yn Sir Gaerfyrddin, erbyn machludiad haul. Llonwyd fi yn fawr wrth weled y teulu mor grefyddol, yn darllen ac adrodd yr Ysgrythyrau, ac yn canu Salmau." Mae yn ymddangos fod Capel Seion, Llanddarog, a Thy'r Dwncyn, dan ofal Mr. Jones oddiar ddechreu ei weinidogaeth; ond rhoddodd Gapel Seion i fyny tua 1752, neu yn fuan ar ol hyny. Symmudodd o Bentwyn i rywle yn Mhlwyf Penbre, lawer o flynyddau cyn ei farwolaeth, ac oddiyno i Dreforris, lle yr oedd ei fab yn ei gynnorthwyo gyda'r ysgol. Yn 1759, rhoddodd Eglwys Ty'r Dwncyn, o herwydd gofal ysgol, a gradd efallai o effeithiau henaint ar Mr. Jones, alwad i Mr. Lewis Rees, tad Dr. Abraham Rees, i ddyfod yn gydweinidog ag ef. Wedi hyny, un Sul yn y mis y byddai Mr. Jones yn gwasanaethu; ond cadwai y Sul hwnw yn bur rheolaidd yn 1764 a 5, ond ni fu yn pregethu o gwbl yn 1766. Etto, yr oedd yn fyw, canys derbyniodd arian o'r Drysorfa Henadurol y flwyddyn hono. Digon tebyg fod methiant henaint wedi ei orddiwes, ac iddo farw yn 1767 neu 8.

Tachwedd 24, 1764, ysgrifena Mr. William Jones, yr hwn a arferai fyned bob Sul o Abertawe i'r Mynyddbach i'r cwrdd :—"Y Sabboth hwn, myfi a aethum i'r cwrdd fel arferol, ond ni chawsom yr un bregeth yno. Rhwng bod yr hin yn oer a'r ffordd yn bell, Mr. Jones a dariodd gartref." Ar ddiwedd cofnodiad helaeth o bregeth gan Mr. Jones, oddiar Luc xiv. 47, yr hon a draddododd yn Nhy'r Dwncyn, Awst 18, 1764, ceir fel y canlyn :—"Hefyd, mae cenadon Duw yn galw ar eich hol, Myfi heddyw (meddai yr hen wr) sydd yn galw arnoch yn ngwydd nefoedd a daear i ddychwelyd at yr Arglwydd." Ac O! 'r cynghorau perthynasol, yr anogaethau tyner, a'r geiriau ennillgar oedd ganddo. "Mor hyfryd yw traed y rhai sydd yn efengylu pethau daionus; ïe'n wir, mor hyfryd yw eu gwedd, ac mor ardderchog yw eu swydd; mor fawr yw eu gwaith, etto mor ddysglaer fydd eu coron."—*Eglwysi Annybynol*, II. 19, 20. T. C. U.

---

## ANGEL YN DDIARWYBOD.

Yr oedd diogi, trosedd, ac annghymmedroldeb wedi gwneyd eu gwaith truenus, a gorweddai y fam farw yn oer a noeth yn nghanol ei phlant trallodus. Yr oedd wedi cwympo ar drothwy ei drws ei hun mewn llewyg o feddwdod, a bu farw yn mhresenoldeb ei rhai bychain dychrynedig.

Mae angeu yn cyffwrdd â ffynnonau ein dynoliaeth gyffredinol ni. Yr oedd y fenyw hon wedi ei dirmygu a'i dynoethi yn ddigllon gan bob dyn, dynes, a phlentyn bron yn y pentref; ond yn awr, fel y sibrydid y ffaith gan un wefus ar ol y llall, mewn acenion isel, cymmerodd tosturi le digofaint, a thristwch le dynoethiad. "Beth a wneir o'r plant?" Dyna oedd y prif gwestiwn yn awr. Celai corff y fam ei osod dan y ddaear, a byddai am byth allan o gyrhaedd gofal a thrafferth y pentrefwyr. Ond nid oedd wiw gadael i'r plant newynu.

Ar ol ystyried y mater, a chael ymgom efo'i wraig, dywedai Jones y ffermwr y cymmerai efe at John, a gwnelai ei oreu drosto; a Mrs. Williams, yr hon oedd wedi bod yn edrych allan er ys llawer dydd am forwyn fach, a feddyliodd y buasai yn weithred o gymmwynasgarwch ynddi i ddewis Katie, er ei bod yn rhy ifanc o lawer blwyddyn i fod o wasanaeth iddi.

Ond ni ddywedodd neb, "Mi gymmera' I at Maggie." Edrychai llawer gyda gofid dwys ar y ffurf welw deneu a orweddai ar ei gwely bychan, a blinid meddwl llawer o barthed iddi. Dygai mamau hen ddillad wedi eu troi heibio, a chan ddiosg oddiam dani ei dillad carpiog ei hun, gwisgasant hi mewn gwisg lân. Yr oedd llygaid trist a gwyneb amyneddgar yr un fechan yn cyffwrdd â llawer calon, a churent yno am agoriad. Ond nid agorodd un galon i'w chymmeryd hi i fewn. Pwy oedd ag eisieu plentyn afiach ar wely cystudd?

Cymmerodd yr angladd le dranoeth i ddydd marwolaeth. Ymgasglodd ychydig gymmydogion yn y bwthyn gwael, ond ni ddylynodd neb yr elorgerbyd ar ei daith brudd at fedd y tlawd. Cyn gynted ag yr aeth yr arch allan o'r tŷ, cymmerodd Jones y ffermwr John ac a'i gosododd yn ei wagen, a ffwrdd ag ef yn hollol foddlon ei fod wedi gwneyd ei ran yn dda. Dywedai Mrs. Williams wrth Katie yn frysiog, "Rho ffarwel i dy chwaer," a darfu iddi wahanu y ddwy chwaer fechan ag oedd eu calonau ar dori gan eu teimladau drylliog cyn i'w gwefusau gwrdd bron mewn ffarwel ocheneidiol. Yr oedd brys ar bawb i fyned allan, rhai gan dafiu trem ar Maggie, ond ereill yn penderfynu peidio edrych arni, hyd nes yr aethant allan i gyd. Yr oedd wrthi ei hun. Bron ar riniog y drws safodd Joseph y saer, a dywedodd wrth Mari'r gof, yr hon oedd ar frys i ymadael gyda'r lleill, "Mae'n greulon i'w gadael hi fel hyn."

"Yna cymmerwch hi i'r tlottŷ: yno y caiff hi fyn'd," meddai Mari'r gof, gan droi ei chefn a gadael Joseph wrtho'i hun.

"O! Mr. Jenkins," ebai'r eneth mewn llais egwan, "peidiwch a'm gadael I yma wrth fy hun."

"Na, 'merch I," meddai mewn tôn garedig, gan fyned at y gwely i phlygu uwchben y fechan sâl, "'chei di ddim bod wrth dy hun." Yna efe a'i rhwymodd, gyda thynerwch mam, yn y dillad gwely glân a ddygasai rhai o'r cymmydogion, a chan ei chodi yn ei freichiau preiffion, cariodd hi allan i'r awyr iach, a thros y cae a orweddai rhwng y bwthyn a'i gartref.

Gwelai Mrs. Jenkins ef trwy y ffenestr yn dynesu at y tŷ, a chyfarfu ef â gwyneb cuchiog ychydig latheni oddiwrth y drws. Efe a gariai lwyth gwerthfawr, a theimlai ei fod felly. Tra y gwasgai ei freichiau y plentyn afiach at ei fynwes, aethai perarogl hyfryd o dynerwch oddiwrthi, a threiddiai ei deimladau. Yr oedd rhwymyn wedi ymwau yn barod gylch y ddau, a chariad yn tarddu yn fywyd.

"Beth sy' genych yna?" ebai Mrs. Jenkins yn swta. "Ni ddygasoch adref y plentyn afiach yna!" Yr oedd digter a syndod yn nhôn llais Mrs. Jenkins: fflachiai ei gwyneb mewn tymher ddrwg.

"Mae calonau menywod yn galed," meddai.

"Ddim hanner caleted a chalonau'r gwrrywod," meddai hithau.

Gwelodd Joseph, trwy ymwybyddiaeth gyflym, fod ei osgo benderfynol wedi cael argraff ar ei wraig, ac atebodd hi yn frysiog, a chyda digllonedd penderfynol, "Gadewch i hyny fod, fe drodd pob menyw yn yr angladd ei llygaid oddiwrth wyneb yr eneth glaf, a phan gychwynodd y cerbyd gyda gweddillion ei mam farw, brysiodd pob menyw oddiyno, gan adael y plentyn, druan, yn yr hen fwthyn, a hyny cyn fod yr haul awr yn yr wybren."

"Ble'r oedd John a Kate?" ebai Mrs. Jenkins.

"Taflodd Jones, y ffermwr, John i'w wagen, a ffwrdd ag ef. Aeth Katie adref gyda Mrs. Williams: 'doedd ar neb eisieu y plentyn sâl. 'Danfonwch hi i'r tlotty,' meddai'r bobl."

"Pa m na adaw'soch iddi fyn'd, ynte? Beth wnaeth i chwi ei dwyn yma?"

"'All hi ddim cerdded i'r tlotty," ebai Joseph, "rhaid i freichiau rhywun ei chario, ac y mae fy mreichiau I yn ddigon cryfion at y gorchwyl."

"Pa'm na fuasech yn myn'd, ynte? Beth wnaeth i chwi aros yma?" ebe'r wraig.

"Am nad wyf yn arfer gwneyd pethau mor ynfyd. Rhaid i mi weled y gwarcheidwaid yn gyntaf, a chael caniatad."

Nis gallai amheu hyn.

"Pa bryd y gwelwch chwi'r gwarcheidwaid," meddai'r wraig, yn sarug.

"Yfory."

"Pa'm yr oedwch hyd yfory? Ewch ar unwaith i ofyn caniatad, a mynwch y cyfan oddiar eich dwylaw heno."

"Jane," ebai'r saer, gyda'r fath ddifrifolder yn ei lais a barodd i'w wraig ymbwyllo llawer, "'rwy'n darllen yn y Beibl, weithiau, ac yn canfod fod llawer yn cael ei ddweyd yno am blant bychain. Pa fodd y ceryddodd yr Iachawdwr y dysgyblion am beidio eu derbyn nhw: pa fodd y cymmerodd efe hwy yn ei freichiau ac a'u bendithiodd, a pha fodd y dywedodd nad elai pwy bynag a roddai iddynt hyd y nod gwpanaid o ddwfr oer byth heb ei wobr. 'Nawr, 'dyw hi ond peth bach iawn i ni gadw yr eneth dlawd ddifam hon am un noswaith,—bod yn garedig wrthi am un noswaith, a gwneyd ei bywyd yn gysurus am un noswaith. Edrychwch yn dyner arni, Jane,—siaradwch yn garedig wrthi," ebai Joseph, "meddyliwch am ei mam sydd newydd farw, ac am yr unigedd, y poen, a'r tristwch sydd yn debyg o grogi drosti weddill ei bywyd." Rhoddodd tynerwch ei galon hyawdledd anarferol i'w wefusau.

Ni atebodd Mrs. Jenkins, ond maes o law hi drodd tua'r ystafell fechan lle'r oedd ei gwr wedi gosod Maggie, ac wedi agor y drws, aeth i fewn yn dawel. Ni ddarfu i Joseph ei dylyn,—gwelodd fod ei chyflwr wedi newid, a theimlodd mai gwell oedd ei gadael wrthi'i hunan gyda'r plentyn. Felly, aeth ef i'r gweithdŷ a safai gerllaw y tŷ, a gweithiodd hyd nes i hwyr ro'i gollyngdod iddo. Wrth ddynesu at y tŷ, y peth cyntaf a dynodd sylw'r saer oedd goleu yn pelydru trwy ffenestr y glaf-ystafell,—yr oedd hyny yn arwydd dda. Gorweddai ei lwybr heibio i'r ffenestr hon, a phan gyferbyn â hi, nis gallai lai nag aros i edrych i fewn. Erbyn hyn, yr oedd yn ddigon tywyll allan i'w guddio ef rhag i neb ei weled. Gorweddai Maggie, wedi ei chodi ychydig ar obenydd, gyda'r llusern yn goleuo yn gywir ar ei gwyneb. Eisteddai Mrs. Jenkins wrth erchwyn y gwely, yn siarad â'r plentyn.

Wedi i Joseph fyn'd i'r tŷ, ni aeth ar unwaith i'r ystafell fechan. Bu ei gerddediad trwm ar hyd y gegin yn foddion i ddwyn ei wraig hytrach yn frysiog o'r ystafell lle yr oedd wedi bod yn siarad â Maggie. Meddyliodd Joseph mai goreu oedd peidio gwneyd un cyfeiriad at y plentyn, na dangos ei fod yn gofalu dim am dani. Wedi ymolchi aeth i'r ystafell lle y gorweddai'r claf. Edrychai dau lygad mawr dysglaer i fyny ato, gan appelio ato yn dyner, yn ddiolchgar, ac yn llawn ymbil. Sut yr ymchwyddai ei galon yn ei fynwes! Sut y curai y galon

hono yn fwy nag erioed! Eisteddodd i lawr, ac yn awr wrth edrych am y tro cyntaf ar y gwyneb teneu dan oleuni'r llusern, gwelai ei fod yn wyneb prydferth, yn llawn o felusder plentynaidd nad oedd dyoddefaint ddim wedi bod yn abl i'w ddileu.

"Eich enw yw Maggie?" meddai, tra yr eisteddai, gan gydio yn ei llaw fechan yn ei law ei hun.

"Ie, Syr." Tarawodd ei llais dant a ddarfu ddeffroi *strain* hyfryd o gerddoriaeth yn ei enaid.

"A ydych wedi bod yn sál yn hir?"

"Ydwyf, Syr." Y fath amynedd melus oedd yn ei llais. Y fath foddhad, yn gymhleth â diolchgarwch, oedd yn ei thón.

"Mae swper yn barod," gwaeddai Mrs. Jenkins. "Beth ydych yn fwriadu wneyd â'r plentyn hwna?"

"Yr oeddwn yn meddwl i chwi fy neall ei bod hi i fyn'd i'r tlotty," meddai Joseph, fel pe'n synu at y cwestiwn.

Edrychai Mrs. Jenkins hytrach yn od ar ei gwr am rai munydau, ac yna, ysgydwodd ei phen. Ni wnawd un cyfeiriad pellach at y pwnc yn ystod y pryd bwyd. Ar ddiwedd y swper, tostiodd Mrs. Jenkins damaid o fara; tynerodd ef yn ofalus â llaeth ac ymenyn; at hyn, ychwanegodd gwpanaid o dé, a dygodd hwynt i Maggie, yr hon a'u bwytaodd yn awchus, fel pe bai angen bwyd arni.

"A yw e'n dda?" gofynai Mrs. Jenkins wrth weled pa mor awyddus oedd hi'n bwyta'r ymborth a gynnygid iddi.

Arosodd y plentyn a'r cwpan yn ei llaw, ac atebodd ag edrychiad o ddiolchgarwch a ddeffrodd i fywyd newydd hen deimladau dynol ag oeddynt wedi bod yn cysgu yn ei chalon am ddeng mlynedd.

"Ni a'i cadwn hi am ddiwrnod neu ddau yn rhagor; mae mor wan a digymhorth," ebai Mrs Jenkins, mewn atebiad i sylw a wnaeth ei gwr ar foreufwyd dranoeth, fod yn rhaid iddo ef fyned a gweled Gwarcheidwaid y Tlodion o barthed i Maggie.

"Hi fydd gymmaint ar eich ffordd," meddai Joseph.

"Nid wyf yn gofalu am hyny am ddiwrnod neu ddau. Druan dlawd."

Ni welodd Joseph mo Gwarcheidwaid y Tlodion y diwrnod hwnw, na thranoeth nac ail tranoeth. Mewn gwirionedd, ni welodd ef byth 'mo honynt mewn cyssylltiad â Maggie, oblegyd, cyn pen wythnos, byddai cystal gan Mrs. Jenkins fyned i'r tlotty ei hunan â danfon Maggie yno.

---

## MYNEGFYS.

Mynegfys ddengys i ddyn—y iawn ffordd
Yn ddiffael i'r mymryn;
Ar ffordd groes mae'r un goes gwyn
Yn gyfaill heb raid gofyn.

*Dyffryn Cerdin.* HEN DEAMP.

## Y CYFARFODYDD CHWARTEROL.

Cynnaliwyd Cyfarfodydd Chwarterol y Pasc yn y Cribin ar y 4ydd a'r 5ed o Ebrill. Cafwyd tywydd ffafriol neillduol, ac er fod llawer yn brysur gyda thrin y tir, yr oedd y cynnulliadau yn lluosog iawn. Yr oedd yr achlysur hefyd yn cael ei ddefnyddio fel adeg ail-agoriad y capel, ar ol myned dan adnewyddiad trwyadl oddifewn ac oddiallan. Mae yn awr, yn ol barn pawb, yn un o'r capelau mwyaf prydferth a defnyddiol a feddwn. Ymddiriedwyd y gwaith o'i adnewyddu i Mr. Edward Jones, aelod o'r gynnulleidfa, ac y mae wedi rhoddi boddlonrwydd cyffredinol yn mhob ystyr, Yr oedd y draul, a chyfrif y cyfan, yn agos i £200, ac yr ydym wedi llwyddo i glirio yr oll, yr hyn sydd yn galondid mawr i ni fel cynnulleidfa yn y Cribin.

Dechreuwyd y cyfarfod nos Fercher gan y Parch. J. Williams, Penrhiw, a phregethwyd gan y Parch. W. J. Davies, Dowlais, a'r Parch. W. Parry, Penybont—y cyntaf oddiar Pregethwr ii. 24, a'r olaf oddiar Iago i. 4. Dymunwn, pe yn gallu, roddi crynodeb byr o'r ddwy bregeth uchod, ond ofnaf, Mr. Gol., fod eich gofod yn brin. Rhoddasant foddlonrwydd cyffredinol, fel y mae genyf sail i gredu.

Boreu dydd Iau dechreuwyd gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca, yn ei ddull deheuig ac effeithiol arferol, a phregethwyd yn gyntaf gan y Parch. J. E. Manning, Abertawe, yn Saesneg, ac yna, gan y Parch. J. H. Davies, y pregethwr pennodedig, yn Gymraeg. Dichon nad oedd pawb oeddynt yn wyddfodol yn gallu gwerthfawrogi pregeth ardderchog Mr. Manning, ond credaf fod llawer yn gallu gwneyd hyny. Ond er nad oeddym oll, efallai, yn ei ddeall, credaf ein bod oll yn teimlo yn llawen ei fod yn cyfeillachu â ni fel hyn yn ein cyfarfodydd chwarterol. Ond yn y dyfodol, gyda'r *Welsh Grammar* a'r *Dictionary* yn ei feddiant, a ydyw yn ormod i ni ddysgwyl y bydd Mr. Manning yn fuan yn gallu pregethu yn ein cyfarfodydd yn yr hen iaith gyssegredig—Cymraeg. Yr oedd pregeth Mr. Manning yn seiliedig ar Ruf. xiv. 1—6. Bwriadaf roddi crynodeb o honi yn Yr Ymofynydd nesaf. Testyn Mr. Davies oedd Pregethwr iii. 14, a swm a sylwedd ei bregeth (mor bell ag y gallaf gofio) oedd hyn:—Mae y bywyd dynol yn agored i lawer iawn o gyfnewidiadau; ac hyd y nod yn natur mae cyfnewidiadau mawrion yn cymmeryd lle yn barhaus. Mae dyn yn naturiol yn caru edrych yn ol i'r gorphenol—yn caru meddwl am ei obeithion siomedig, ac am yr hyn y mae y gorphenol wedi ei ddwyn ymaith gydag ef. Ond os chwiliwn i fewn i'r teimlad hwn, cawn yr ymddybyna ein pleser ar y ffaith ein bod yn gallu gweled nad oes dim ag oeddym yn ei wir werthfawrogi wedi ei gymmeryd ymaith oddiwrthym; pa beth bynag a rydd Duw i ni, erys hwnw gyda ni byth. Mae prydferthion natur yn feddiant parhaus i ddyn. Bob tro yr ydys yn sylwi ar wahanol ymddangosiadau yn natur, yr ydys yn cael ymborth i'r enaid, a deuant yn fwy anwyl i ddyn pa fwyaf y sylwa arnynt. Ac y mae hyn felly yn fwy fyth mewn cyssylltiad â phrydferthwch cymmeriad, &c. Yr ydym yn edrych yn ol, ac yn cofio am y seintiau oeddynt

yn adnabyddus i ni, ac iddynt hwy yr ydym yn ddyledus am lawer o'r ffydd sydd ynom, ac yr ydym wedi cael ein hysprydoli gan eu bywydau. Felly hefyd pan y rhydd Duw wirionedd, y mae yn ei roddi am byth. Mae gwybodaeth, yn y ffurf allanol o honi, yn myned heibio; ond y mae gwirionedd yn aros. Mae syniadau yn cyfnewid o oes i oes, ond yn nghanol yr holl gyfnewidiadau, y mae yr hyn sydd wir yn y cyfryw syniadau yn aros. Pan y rhydd Duw gariad i ni, y mae yn ei roddi am byth; gall cydymdeimlad arwynebol fethu; ond erys gwir gariad gyda ni. Felly etto y mae daioni—gwir ddaioni—yn aros, ac yn enwedig dynion da. Nid ydym byth yn agosach i'r nefoedd nâ phan yr ydym yn sefyll gerllaw ffurf ddifywyd rhyw ddyn da. Nid yw y cyfryw byth yn marw: dim ond wedi myned allan o olwg; y maent wedi dyfod yn rhan o fywyd y genedl. Yn mhob profiad y mae rhywbeth yn arosol. Yr ydym yn annghofio ein syniadau; ond y mae y ffydd, y gobaith, a'r cariad, sydd wedi tyfu ynom—y mae y rhai hyn oll yn aros.

Yn hytrach nâ chynnal y *conference* yn uniongyrchol ar ol cyfarfod y boreu, meddyliwyd mai doethach fyddai ei osod yn y prydnawn, a throdd allan fel y dysgwylid. Dechreuwyd gan y Proff. Evans, diweddar o Goleg Caerfyrddin. Pwnc y *conference* oedd "Crefydd a Gwyddor," ar yr hwn yr oedd y Parch. W. J. Davies, Dowlais, wedi ei appwyntio i ddarllen papyr. Sylwodd ar bwysigrwydd y pwnc, ac ar y modd yr edrychid ar wyddor gan grefyddwyr yn y gorphenol,—yn anffafriol, a dywedodd fod yr amser yn dod pan y byddai crefydd a gwyddor yn cael eu hystyried fel efeillesau. Rhanodd y pwnc fel y canlyn:—(1) Beth yw crefydd? (2) Beth yw gwyddor? (3) A oes unrhyw berthynas rhyngddynt? (4) Os oes, y drwg sydd yn canlyn o'u hystyried yn wrthwynebol i'w gilydd. (5) Y bendithion a ddeilliant o'u hystyried fel yn cynnorthwyo eu gilydd. (6) Dyleswydd dyn mewn perthynas â hwynt. Elfenau crefydd ydynt (1) gydymdeimlad ymarferol a (2) phurdeb personol; ac yr oedd yr elfenau hyn yn cael eu gosod allan yn y gair *crefydd*, yr hwn a berthyn i'r gair *crefu*, ystyr yr hwn yw dymuniad ar du dyn i ddal cymmundeb â rhyw wrthddrych allanol, sef Duw. Gwyddor a ellir ei hystyried fel gwybodaeth o bob math; ond yn bresenol cyfyngir y gair i wybodaeth o ddeddfau natur. Yn y gorphenol, ystyrid y wybodaeth hon fel yn wrthwynebol i osodiadau crefydd. Ond y mae y gwrthwynebiad hwn yn dod yn llai o oes i oes, ac yn mhen ychydig o amser deuir i ddeall fod y ddau yn dal cyssylltiad mor agos â'u gilydd, fel nas gall un o honynt fodoli yn iawn heb y llall. Siaradwyd ar ei ol gan y Parchn. J. E. Manning, J. Davies, T. Thomas, T. Lloyd Jones, R. J. Jones, a'r Proff. Evans. Yr oeddynt oll yn cyduno â Mr. Davies mai efeillesau oedd gwyddor a chrefydd, ac na ddylai un gwrthdarawiad fod wedi codi rhyngddynt; aeth y Proff. Evans yn mlaen yn mhellach i amddiffyn cywirdeb hanes y cread a'r diluw yn Genesis, a gallem feddwl, wrth y gwenau siriol oeddynt ar wynebau rhai o'r gynnulleidfa, fod yr hen wr yn siarad wrth eu bodd; a'r casgliad y daethum iddo ar y diwedd oedd, rhwng yr holl siaradwyr, fod pawb wedi derbyn budd ac adeiladaeth.

Nid wyf yn cofio i mi fod mewn *conference* mwy bywiog a llwyddiannus yn mhob ystyr er's amser maith; a'm teimlad ar ei ddiwedd oedd fod y *conference* mewn cyssylltiad â'n Cyfarfodydd Chwarterol yn ateb rhyw ddyben da wedi'r cyfan.

Yn yr hwyr, dechreuwyd gan y Parch. W. J. Davies, a phregethwyd gan y Parchn. R. J. Jones ac E. W. Lloyd; y cyntaf oddiar Matt. xxi. 42, a'r olaf oddiar Matt. iii. 8. Carasem etto roddi crynodeb o'r ddwy bregeth hyn, ond yr wyf yn ofni, Mr. Gol., fod eich amynedd yn pallu.

Yr oedd y cyfeillion canlynol yn bresenol yn ychwanegol at y rhai a enwyd eisoes:—Parchn. R. C. Jones, W. Rees, J. C. Lloyd (A), a'r Mri. Jenkin Thomas, David Thomas, John Davies, a D. Lloyd Jones (myfyrwyr). Felly y terfynodd cyfarfodydd llwyddiannus yn mhob ystyr o'r gair; a gobeithiwn y bydd i'r dylanwadau da a achoswyd ganddynt barhau am amser maith, a llanw y ddeadell fechan yn y Cribin, yn ogystal a'r deadellau ereill oddiamgylch, gyda mwy o sel a brwdfrydedd nag erioed dros eu hachosion. D. E.

---

## NODYNAU GWASGAROG.

### Y PARCH. JOHN EVANS, GELLIONEN.

Y CYFAILL didwyll, y Parch. John Evans, o'r Gellionen, nid ydyw mwyach. Y mae wedi rhodio llwybr ar hyd yr hwn ni ddychwela. Y mae heddyw yn gorphwys oddiwrth ei lafur, a'i ludded, a'i boen, uwch cyrhaedd cariad a châs pawb ar y ddaear, yn hen fynwent fynyddig, ond cyssegredig, Gellionen. Ganed ef y 19eg o Fedi, 1835, bu farw yr 8fed o Fawrth, 1888, a chladdwyd ef y 12fed canlynol. Yr oedd ei iechyd wedi gwaelu er ys rhai blynyddau, a dyoddefodd gystudd trwm y misoedd diweddaf o'i fywyd, fel mai nid gelyn ond cyfaill iddo fu angeu pan ddaeth i roddi iddo esmwythad.

Wrth gofnodi marwolaeth dyn cyhoeddus mae'n arferol, gyda chrybwyll "yr oed, a'r enw, a'r dydd bu farw," i ddweyd rhyw ychydig am dano yn y cyfryw gymmeriad, ond pan y mae cyfaill yn ymgymmeryd â hyn o waith, dylai fod yn dra gofalus i ochelyd gorganmoliaeth rhag ofn y bydd i hyny beru i ambell un gofio a choffhau gwendidau a beiau a gawsent, oddieithr hyny, aros yn nghudd dan leni tywyllwch y bedd. Nid oes un dyn perffaith wedi byw na marw erioed. Mae brychau ar wyneb yr haul, ac y mae rhyw ysmotyn du neu gilydd yn tywyllu dysglaerdeb cymmeriad y goreu o ddynion i ryw raddau; a chysur penaf marwolion yn nghanol eu holl gamsyniadau ar y ddaear yw gwybod fod y Tad Nefol yn adwaen eu defnydd, ac yn cofio mai llwch ydynt, yn fwy parod i drugarhau wrthynt nag y maent hwy yn aml i drugarhau wrth eu gilydd. Wrth ysgrifenu yr ychydig linellau hyn mewn coffadwriaeth am y diweddar Barch. John Evans, pell wyf o feddwl ei fod yn ddyn difai. Gwn y perthynai iddo feiau fel y perthyna

i bawb o blant Adda, a gwn hefyd, a gwyr pawb a'i hadnabuent y perthynai iddo ragoriaethau lawer. Pan yn sefyll uwchben ei fedd, mwy parod fydd rhai, efallai, i goffhau yr hyn oedd feius yn ei fywyd na chofio am ddim oedd yn rhagorol ynddo, ond mwy hyfryd genyf fi fydd galw i gof ei rinweddau a cheisio eu hefelychu. Ni anwyd ef â'r llwy arian yn ei enau, fel llawer yn y byd hwn, ond gorfu iddo weithio yn ddiwyd am ei fara beunyddiol dan lawer o anfanteision yn moreu ei oes. Yr oedd ynddo benderfyniad na wnai ildio i anhawsderau, ac felly y llwyddodd, gydag amser, i gyrhaedd safle uchel o ddefnyddioldeb mewn cymdeithas, a bu o wasanaeth mawr yn ei ddydd mewn amryw ystyron yn amgylchoedd Gellionen a manau ereill.

Bu Mr. Evans, am beth amser yn moreu ei oes, yn *apprentice currier*, ond yr oedd yr alwedigaeth hono yn gofyn corff o gyfansoddiad cadarnach ac iachach nag a roddasai natur iddo ef, ac felly, gorfodwyd ef i roddi heibio y gelfyddyd hono. Wed'yn, bu yn cadw ysgol mewn dau neu dri o fanau—Llwynygroes, Llanybyther, a Llidiadynog. Teimlai nad oedd yn hollol i fyny â gofynion y swydd hon—fod yr addysg flaenorol a gawsai yn rhy ddiffygiol; ac er ychwanegu at ei ddysgeidiaeth, aeth i'r ysgol i Bontshân, lle y bu yn llafurus iawn, a lle hefyd y penderfynodd ymbarotoi er myned i Goleg Presbyteraidd Caerfyrddin i ymgymhwyso at waith y weinidogaeth. Wedi gorphen ei addysg athrofaol yn Nghaerfyrddin, cafodd alwad unfrydol gan gynnulleidfa Gellionen yn 1862 i ddyfod i'w gwasanaethu fel cynnorthwywr i'r diweddar Barch. John James, yr hwn oedd dra methianllyd o herwydd henaint, ac yn dyoddef oddiwrth afiechyd a fu yn angeuol iddo yn mis Medi, 1864. Yr oedd Mr. Evans yn bregethwr wrth fodd calon Mr. James, ac ar gyfrif hyny, fel un peth, safai yn uchel yn ngolwg pobl Gellionen. Wedi marwolaeth Mr. James, ar Mr. Evans yn gyfangwbl y gorphwysai dyledswyddau y weinidogaeth. Llafuriodd Mr. Evans fel olynydd y gwr parchedig a dysgedig hwnw gyda chymmeradwyaeth mawr hyd o fewn i ychydig flynyddoedd i'w farwolaeth, pan, o herwydd ychydig gamsynied ac annealldwriaeth yn benaf ar y cyntaf, cymmerodd annghydfod le nes yr oerodd y cariad gwresog gynt, a'r diwedd fu i Mr. Evans roddi i fyny y weinidogaeth yn Nghellionen, ond parhaodd i bregethu yn achlysurol yn yr Onenfawr, ger Llandeilo, tra y bu yn alluog. Nid oedd ein cyfaill fel pregethwr yn *ddoniol* iawn, ond yr oedd yn *sylweddol*. Nid boddloni y bobl drwy eu cogleisio oedd ei amcan ef, ond eu *dysgu* drwy osod o'u blaen, mewn modd syml a dealladwy, egwyddorion mawrion Cristionogaeth, a'u cymhell i'w gweithio allan yn ymarferol yn holl rodfeydd bywyd. Yr oedd ei bregethau, fynychaf, yn cael cymmeradwyaeth gyffredinol yn ein cyfarfodydd chwarterol a blynyddol.

Yn ystod ei weinidogaeth ef, a thrwy ei ymdrechion ef yn benaf, yr adnewyddwyd hen gapel eang Gellionen, yr hwn sydd yn awr, er yn gyffredin iawn yr olwg allanol arno, yn addoldy mor gyfleus a phryderth, yr oddifewn o hono, ag sydd eisieu iddo fod at yr achos. Nid yn unig adnewyddwyd y capel, ond prynwyd ef hefyd, yn nghyd â'r gladdfa helaeth sydd oddiamgylch iddo, fel y mae yr oll yn awr yn

eiddo *freehold* i'r ymddiriedolwyr. Yn amser Mr. Evans, drachefn, yr adeiladwyd Ysgoldy Trebanos, yn yr hwn y pregethai am chwech nos Sul ac y cadwai ysgol ar hyd yr wythnos tra daliodd ei iechyd. Bu y profiad oedd Mr. Evans eisoes wedi ei gael fel ysgolfeistr, yn nghyd â'r addysg ychwanegol a gawsai yn y coleg, yn gymhorth mawr iddo lwyddo yn y cylch hwn o'i wasanaeth. Ennillodd iddo ei hun yma enw fel athraw medrus a chywir, ac y mae ei ysgolheigion heddyw, ac efe yn ei fedd, yn cofio am dano gyda diolchgarwch gwresog a pharch diffuant.

Yr oedd y cyfaill ymadawedig, heblaw fel gweinidog ac ysgolfeistr, yn ddefnyddiol iawn yn ei gymmydogaeth mewn amryw ystyron ereill. Yr oedd yn glerc Bwrdd Ysgol Clydach er ei ddechreuad, yr wyf yn meddwl, ac yn cael ei ystyried yn bencynghorwr yn mha bethau bynag a ddeuent gerbron. Yr oedd yn hyddysg mewn cyfrifon o bob math; yr oedd yn ysgrifenwr hylaw, ac ysgrifenai lythyron lawer dros bobl gyffredin yr ardal; gwnai gytundebau rhwng dynion a'u gilydd; pan fyddai ymrafael weithiau yn codi rhwng pleidiau, byddai rhaid myned at Mr. Evans er gwneyd y mater i fyny ac adfer heddwch, yr hyn oedd yn well nâ myned at gyfreithwyr. Yn y modd hwn a'r cyffelyb yr oedd cylch ei ddefnyddioldeb yn eangach nâ'r cyffredin yn y wlad o amgylch. Yn awr, pan y mae wedi myned i ffordd yr holl ddaear, y gwel dynion ei wir werth; ac os na chafodd ei haeddiant ar law rhai ar y ddaear, gwnaed y cyfryw gyfiawnder â'i goffadwriaeth o hyn allan. Ymddangosodd y llinellau canlynol yn y *Faner* am Mawrth yr 28ain:—

Gyda gofid y gafaelwn yn yr ysgrifell i groniclo hanes marwolaeth a chladdedigaeth y Parch. John Evans. Yr oedd Mr. Evans yn enedigol o Lanwnen, Ceredigion. Derbyniodd ei addysg ddechreuol gyda'r Parch. Thomas Thomas, Pantydefaid, ac yna, aeth oddiwrth Mr. Thomas i Goleg Caerfyrddin, pan oedd y parchus a'r diweddar Ddr. Lloyd yn Brif Athraw yno. Yn ystod ei arosiad yn y coleg hwnw, profodd Mr. Evans ei hun yn hynod ar gyfrif ei astudrwydd a'i gywirdeb, a bu yn dra llwyddiannus fel myfyriwr. Ar ol terfynu ei dymhor athrofaol, a hyny mewn modd anrhydeddus, ordeiniwyd ef yn Gellionen yn 1862, ac yno y bu yn gwneyd daioni, ac yn fawr ei barch hyd ddydd ei farwolaeth. Meddai Mr. Evans ar ddynoliaeth ardderchog; yr oedd yn llawn cydymdeimlad a charedigrwydd, ac yn un o'r cyfeillion didwyllaf a aethant erioed i'r bedd. Yr oedd yn hynod agored a diragrith yn ei holl ymwneyd â phawb; yr oedd yn cashau â chas cyfiawn bob math o ffug a chlicyddiaeth, ac nis gallai oddef twyll a deuwynebedd, gan mor ddihoced ydoedd ei natur ef ei hun. Meddiannai farn addfed ar bob cwestiwn bron, ac yr oedd yn hynod o lydan ac eang pan yn traethu ar faterion cynnil a dyrus. Yr oedd cylch ei ddarlleniad yn eang iawn, ac yr oedd yntau yn sylwedydd manwl, ac yn feirniad craff dros ben. Yr oedd hyn, yn nghyd â'i addysg addfed, yn ei alluogi i roddi barn a chynghor yn mron ar bob mater; ac o'r braidd y gellir dweyd fod gweithiwr yn yr holl wlad nad oedd o dro i dro wedi derbyn cynghor ganddo, tra yr oedd ei natur dda yntau yn

gyfryw, fel y gwnai yr oll yn wastadol yn rhad. Yr oedd hyn yn ei wneyd yn ddyn hynod o werthfawr mewn ardal, ac nis gall y golled ar ei ol lai na bod yn fawr a chyffredinol. Claddwyd ef dydd Llun diweddaf (Mawrth 12), a daeth torf hynod o luosog ac hynod o barchus yn nghyd i angladd gwr anrhydeddus, ac un yr oedd serch y wlad tuag ato yn gynhes a thrwyadl. Claddwyd ef yn yr un bedd a'i anwyl briod, a gedy ar ei ol ddau fab yn eu galar a'u colled. Nawdd y Nef a fyddo ar y ddau, ac arweinied hwynt ar lwybr daioni a thangnefedd. Gweinyddwyd yn yr angladd gan y Parchn. Thomas Thomas, E. W. Lloyd, R. J. Jones, a William Rees, ac yr oedd yn bresenol nifer o weinidogion o wahanol enwadau. Heddwch i lwch y dysgedig, y caredig, a'r unplyg Barch. John Evans.

---

COLEG CAERFYRDDIN—Y PRIF ATHRAW.

"At a meeting of the South Wales Unitarian Ministers, held at Cribin, April 5th, 1888, the following resolution was passed unanimously:—

"That in the opinion of this meeting the reply sent by the Presbyterian Board to the Protest recently signed by the Unitarian Ministers of South Wales and elsewhere in no way meets the objections urged in that document against the appointment of Mr. W. J. Evans to the Principalship of Carmarthen College.

"That this meeting reiterates the Protest, and emphatically asserts its opinion that the Principal of a Theological College devoted to the education of young men for the Christian Ministry ought to join with them in Christian observances, and manifest a warm sympathy in their religious training and welfare.

"That this meeting is further of opinion that the action of the Board in this matter, and in sending so curt an acknowledgement of the Protest, is such that the signatories can no longer put confidence in the general management of the College.

"THOS. THOMAS,
"On behalf of all the Ministers present."

---

"DR. WILLIAMS' LIBRARY,
"LONDON, W.C.,
"April 10th, 1888.

"DEAR SIR,—Your letter of April 5th, and the accompanying protest of South Wales Unitarian Ministers, signed by you as chairman, were duly laid before the Presbyterian Board at their meeting held on April 9th, and I am directed to acknowledge the receipt of both these documents. "I remain,
"Yours sincerely,
"THOS. L. MARSHALL.

"Rev. T. THOMAS, Pantydefaid."

"COLEG CAERFYRDDIN AC OERNADAU YR UNDODIAID."

Mae y Dr. Pan Jones, dan y pennawd uchod, wedi ysgrifenu llythyr i *Darian y Gweithiwr* i ymosod ar ysgrifenwyr y llythyrau a ymddangosasant yn YMOFYNYDD Ebrill; ac er dangos pa fodd y gall gwr o urddas y Dr. ddefnyddio ei ysgrifell, rhoddwn yma rai o'r gemau sydd yn ei lythyr:—

"Beiïr *Y Celt* am yr ysgrif fach hono ar y 'Guano,' ond yr oedd hono fel enaint yr apothecari i'w chydmaru â'r golchion hyn yn YR YMOFYNYDD. Mae gosod i fyny chwil-lys bach yn Pantydefaid, ac erlid dynion am eu credoau (?) yn annghysson â holl hanes Undodiaeth yn y gorphenol, yn groes i broffes YR YMOFYNYDD, ac yn annheilwng o'r urdd yn mhob ystyr, a rhaid fod y golygydd wedi annghofio ei hun a'r ffydd oedd yn ei ragflaenoriaid cyn byth y goddefasai y fath druth i anurddo dalenau ei fisolyn.

"Cwyna 'Cardi' hefyd yn dost am nad yw Mr. W. J. Evans yn ymweled â chyfarfodydd yr Undodiaid yn Sir Aberteifi; ond yn sicr, mae yr ysgrifau budron, bawaidd hyn, yn profi fod gormod o offer creulondeb yn meddyliau y frawdoliaeth Undodaidd i neb sydd â pharch iddo ei hun fyned i'w cyfrinach.

"Nid yw 'Vindex,' druan, yn gwneyd dim ond malu halen mewn gwellt, a diau y gadewir iddo mewn bustl chwerwder a dinodedd gan y rhai a geisia eu pardduo.

"Casgla yr eglwysi Annybynol oddeutu £800 y flwyddyn at y coleg, ond faint y mae gwyr *protest* Pantydefaid a'u praidd yn gasglu ato? Hawdd yw i fam y plentyn marw waeddi rhaner y plentyn byw.

"Canlynir Mr. James ar yr un tant gan dri oernadwr y rhai yn ddyllhuanaidd a lechant y tu cefn i gysgod y ffugenwau 'Ne Sutor,' 'Vindex,' a 'Cardi,' a'r tri hyn yn un y maent yn cytuno. Amlwg yw fod cywilydd arnynt i arddel eu cynnyrchion cableddus, bustarddaidd, a chymmysgryw. Tebyg fod y tri hyn yn weinidogion, wedi bod dan addysg athraw pregethwrol! Gosodant bwys mawr ar addysg y gweinidogion, ond gallasant yn hawdd yn ysgol ysgubwyr simneiau ddysgu gwell moes a gwaith nag a ganfyddir yn eu cynnyrchion.

"Credaf mai fy nyledswydd yw dal tarian rhwng colynau ysgorpionaidd a gwenwynig y siomedigion hyn a sefydliad sydd wedi bod o gymmaint bendith i'r genedl, yr oes, ac i mi fy hun."

---

JENKIN JONES, LLWYNRHYDOWEN.

YR wyf yn barnu y bydd y llythyr canlynol o ddyddordeb i'ch darllenwyr. Os cytunwch â mi, chwi roddwch le iddo, a dichon y bydd genyf finau rywbeth i'w ddywedyd yn ei gylch yn ddiweddarach.—*S. N. S.*

*Llythyr oddiwrth y Parch. Thomas Rees, D.D., Abertawe, dyddiedig Medi 8, 1879 (cyfieithad).*

"ANWYL SYR,—* * Nid wyf wedi cael allan pa bryd y ganwyd Jenkin Jones. Yn ol y *records* yn llyfrgell Dr. Williams, fe'i derbyniwyd yn fyfyriwr i Goleg Caerfyrddin yn 1721, fe 'i ordeiniwyd, yn ol llyfr eglwys y Cilgwyn, yn 1726, a bu farw, nid fel y dywedwch chwi yn 1746, ond yn 1742.

"Yr wyf yn bresenol ŷn amheu mai Jenkin Jones, Llwynrhydowen, oedd cyfieithydd 'O Fewn Ychydig' Mead, ac yn credu ei bod yn fwy tebygol mai Jenkin Jones, Llwynrhys, yr hwn a ymunodd ag eglwys y Cilgwyn Ionawr 12, 1695, ac a ddaeth wedi hyny yn un o weinidogion yr eglwys hono, ac a fu farw yn 1725, oedd cyfieithydd y llyfr hwnw yn ogystal â rhai ereill. Derbyniwyd J. Jones, Llwynrhydowen, i Gaerfyrddin, yn 1721, ac yr oedd, wrth bob tebyg, yn rhy ifanc ac yn annhebygol i ymgymmeryd â'r drafferth o gyfieithu llyfr yn yr ail flwyddyn o'i yrfa golegawl. Desgrifir y Jenkin Jones arall yn *MSS.* y Dr. Evans yn 1715 fel ysgolhaig. Fodd bynag, rhaid edrych i fewn i'r pwnc hwn etto. Esgusodwch fy oediad yn ateb: yr wyf wedi bod oddicartref bron bob dydd yn ystod y pythefnos diweddaf. Ydwyf, anwyl Syr," &c.

---

MARWOLAETH Y PARCH. CHARLES BEARD, B.A., LL.D.

Yn marwolaeth y Parch. Charles Beard, y mae'r enwad Undodaidd wedi colli pregethwr hyawdl, amddiffynwr gwresog a ffyddlon, ac ysgolhaig addfed. Dygwyddodd yr amgylchiad ar y 9fed cyfisol, yn ei dŷ ei hun yn L'erpwl. Ganwyd ef yn Manchester yn 1827. Derbyniodd ei addysg foreuol yn ysgol ei dad (y diweddar Ddr. Beard), ac oddiyno aeth i Manchester New College, lle yr arosodd am dair blynedd; graddiodd yn B.A. yn Mhrif Ysgol Llundain yn 1847; ac oddiyno aeth i Berlin, lle y bu yn astudio dan Neander, yr hanesydd eglwysig enwog. Ar ei ymadawiad â'r coleg, cafodd alwad i fod yn gynnorthwywr i weinidog oedranus Capel Hyde, ger Manchester, ac ar ol ei farwolaeth, dewiswyd ef yn olynydd iddo. Yn y flwyddyn 1867, cafodd alwad i fugeilio Eglwys Renshaw Street, L'erpwl. Yma daeth i enwogrwydd mawr fel pregethwr, fel awdwr, ac fel gwleidyddwr. Yn y cylch diweddaf, edrychid i fyny ato fel un o brif amddiffynwyr egwyddorion Rhyddfrydiaeth yn y ddinas. Y mae ei gynnyrchion llenyddol yn lluosog, o'r rhai y gellir enwi y rhai canlynol:—"A History of Port Royal," yn yr hwn yr ymdrinia ag addysgiadau a dylanwad Pascal; "Commercial Morality in 1867," "Outlines of Christian Doctrine," "The Kingdom of God," "Old and New School," "The Reformation in the Sixteenth Century in its Relation to Modern Thought and Knowledge" (hwn ydyw ei waith llenyddol mwyaf pwysig), a bu yn olygydd am dipyn o amser ar y *Theological Review*; ac yn ychwanegol at y rhai uchod, cyhoeddodd

lawer o bregethau a phamphledau yn ymdrin â gwahanol faterion, ac fel cydnabyddiaeth am ei lafur ar faes llenyddiaeth, derbyniodd yn mis Chwefror diweddaf y gradd o Ll.D. o Brif Ysgol St. Andrews. Fel pregethwr coeth, nerthol, a hyawdl, yr oedd wedi cyrhaedd safle uchel iawn, ac y mae y ffaith ei fod wedi pregethu ar achlysur agoriad nid llai na phump ar ugain o gapeli cyssylltiedig â'n henwad yn Lloegr yn dwyn tystiolaeth amlwg i'w boblogrwydd cyffredinol yn ein plith. Dechreuodd ei iechyd achosi pryder i'w berthynasau a'i gyfeillion oddeutu tair blynedd yn ol; ac yn yr haf, 1886, o herwydd effeithiau anwyd trwm, torodd ei iechyd i lawr yn hollol, a chafodd chwe' mis o wyliau, pryd yr aeth i Itali. Dechreuodd ei waith etto yn mis Mai, 1887; ond yn y mis Awst canlynol, methodd drachefn, ac mewn canlyniad, aeth i Malvern, lle yr arosodd hyd fis Hydref. Ar ol methu drachefn, rhoddodd ei gynnulleidfa ryddid iddo am ddeuddeg mis; ac er mwyn cryfhau ar gyfer taith i wledydd pellenig, aeth i aros am ychydig i Bournemouth. Yn Chwefror, dychwelodd adref i barotoi ar ei chyfer; ond rhwystrwyd ef i gario ei fwriad allan o herwydd gwendid ei gyfansoddiad a gerwinder y tywydd. Yn ystod y mis dylynol, suddodd yn gyflym, ac y pythefnos diweddaf, ychydig obaith oedd am ei adferiad, a machludodd ei haul ar y dyddiad rhagddywededig. Cymmerodd ei angladd le y dydd Iau canlynol. Heddwch i'w lwch.

---

IN MEMORIAM.

And now she is at rest; all pain is o'er;
That brave and tedious strife 'twixt life and death
Is ended; with the evanescent breath
Came the last issue, we had sought before
But for the sweet companionship of yore—
The bond fast knitted by the lapse of years,
Formed by the varying flow of joys and tears.
Sad is the thought to journey on, to grope
  Along life's devious tracks, with those bright eyes
That ever o'er me bent, spoke truth and hope
  And love perennial, closed beneath the skies.
Make me resigned, O God, arm me to cope
  With these my griefs, or worse, if they arise.

*January* 10, 1867. W. T.

---

Os bydd yn rhaid rhoddi cyfrif am bob gair segur, bydd gan rai gyfrif trwm i'w roddi.

# Manion a Hanesion.

A fuoch ch'i yn y cwrdd y Sul diweddaf? Os naddo, pam naddo? A oeddych yn ddiweddar? Os felly, pam felly?

Dywedir fod un o bob naw o boblogaeth yr Unol Dalaethau yn Babyddion.

Dywedir fod Moody, oddiar sefydliad Byddin Iachawdwriaeth, wedi derbyn dim llai na miliwn o bunnau at wasanaeth y Fyddin.

Dysgwch eich bachgen o'r dechreu y bydd yn rhaid iddo rwyfo ei gwch ei hunan ar fôr mawr bywyd, a'i bod yn bwysig iddo ar unwaith wybod mai'r ymddybyniaeth oreu yw hunan-ddybyniaeth, dybyniaeth ar ei ddeg ewin ei hunan.

Capelygroes.—Cafwyd cyfarfod rhagorol yma mewn cyssylltiad a'r Ysgol Sul prydnawn dydd Mercher, y 7fed o Fawrth diweddaf,—cyfarfod mwy hwylus nag un a gafwyd yma erioed o'r blaen ar gyffelyb achlysur. Cynnorthwywyd gan Eglwyswyr ac Ymneillduwyr o wahanol enwadau. Dygwyd traul y te, &c., gan deuluoedd caredig perthynol i'r gynnulleidfa, a theimlir yn dra diolchgar iddynt am eu caredigrwydd, ac i bawb a gymmerasant ran yn y canu a'r adrodd. Mae'n debyg i ddau neu dri o ddyhirod anrasol ddyfod yno yr hwyr er mwyn cyfleusdra i wneyd drygioni. Cywilydd fod y fath gymmeriadau yn cael eu goddef yn y gymmydogaeth. Llywyddwyd yn y cyfarfod hwn gan y Parch. R. C. Jones, Brondeifi, yn absenoldeb y gweinidog.—J. D.

Dysgwch eich merch o'r dechreu i feithrin arferion o ddiwydrwydd ac o wasanaethgarwch, i fod yn ddefnyddiol yn hytrach na ffasiynol, ac yn siriol a chynnorthwyol gartref, fel y gallo hi fod yn aelod gwerthfawr yn nghymdeithas y dyfodol. Mae y ferch a allo gyweirio hosan neu dwll botwm yn fwy o werth i'r byd na'r un all fel y golomen fyned allan yn unig i wneuthur *show* o honi ei hunan ar ben yr heol.

Gwell byw ar dair ac ennill grot, na byw ar rot ac ennill tair!

Pantdefaid.—Yr 22ain o Fawrth diweddaf, cynnaliwyd gwyl de flynyddol yr Ysgol Sul. Er fod yr hin yn anffafriol iawn, etto, cafwyd cynnulliad lluosog rhwng athrawon, ysgolheigion, a chyfeillion yr achos. Eisteddai y gweinidog, T. T. yn y gadair. Wedi darfod a'r te a'r bara brith, rhanwyd rhyw gant a hanner o anrhegion rhwng y plant a'u hathrawon ar draul aelodau o'r gynnulleidfa. Ar ol hyn, cafwyd tonau ac adroddiadau gan yr Ysgol, a chyn ymadael, rhoddwyd diolch i bawb fuont wasanaethgar ar yr achlysur,—i'r gwragedd a'r merched ieuainc fuont yn gweini wrth y byrddau, ac i ereill gynnorthwyasant i gario'r cyfarfod yn mlaen mor llwyddiannus. Nid ydys yn enwi neb rhag ofn na fyddys yn cofio enwi pawb.—Cyfaill.

Pan briododd Sion a Sian, yr oedd gan Sion ddau swllt a Sian hanner coron. Pan yn tynu at derfyn bywyd, dywedai Sion na chlywodd erioed o'r diweddaf am y gwahaniaeth o chwe' cheiniog. D.S.—Peidiwch priodi allan o'ch cylch eich hunan. Mae y darn grot yn edrych i lawr bob amser ar y darn tair.

Offeryn ardderchog yw y cwlwm pump ond ei osod at ei waith priodol. Nid oes eisieu i neb ofni ei ddefnyddio felly.

Pan fyddo'r tafod yn rhoi sain anhynod, nid ar y tafod mae y bai, ond ar y clochydd sydd yn tynu wrth y rhaff. Prawf y tafod yn was ufudd i hwnw bob amser, felly dysger yr hwnw. Mae'r pa un fyddo'r gair yn arw neu yn arafaidd yn dybynu yn hollol ar y clochydd sydd yn tynu y rhaff.

# Marwgofion.

Dydd Mawrth, Chwefror 14, 1888, yn 73 oed, bu farw John Jenkins, Mynach Villa, Cribin, Ystrad. John Jenkins, Rhydybenau, oedd yr enw wrth yr hwn yr adnabyddid ef bob amser hyd yn ddiweddar, oblegyd yno y ganwyd ac y magwyd ef, ac yno y bu byw hyd yr Hydref diweddaf, pan yr ymsymmudodd

i'r Mynach Villa, efe a'i briod a'i unig ferch sydd heb briodi, gan roddi fferm Rhydybenau i fyny i'w fab ieuengaf, John Daniel Jenkins. Ni theimlai ein cyfaill yn hwylus iawn er ys rhai misoedd, ond etto, elai oddiamgylch fel arferol, ac ni feddyliai neb fod ei ddiwedd mor agos. Felly, ymadawodd John Jenkins a'r fuchedd hon hytrach yn annysgwyliadwy; machludodd ei haul pan y tybid ei fod etto rai graddau uwchlaw'r terfyngylch. Yr oedd yr ymadawedig wedi mwynhau iechyd rhagorol: ni fu gymmaint ag un diwrnod yn y gwely o herwydd afiechyd yn ystod yr hanner can' mlynedd diweddaf o'i fywyd, ond er iechyd di-dor am dymhor mor faith, yr oedd iddo ef ei amser terfynedig fel y mae i bob dyn byw arall. Bu yn ffermwr llwyddiannus, ond nid heb ymdrech a gofal, a chafodd ef a'i briod y fraint o ddwyn eu plant i fyny yn *respectable* a'u gosod mewn amgylchiadau cysurus o ran pethau y bywyd hwn. Yr oedd Mr. Jenkins yn un o'r personau mwyaf defnyddiol a dylanwadol yn ei blwyf pan y byddai unrhyw fudiad pwysig ar droed, ac yn gofyn doethineb a phwyll er ei gario yn mlaen. Wrth gwrs, nid oedd heb ei gamsyniadau a'i feiau—pa ddyn marwol sydd? ond a chymmeryd ei fywyd yn gyffredinol, safai yn uchel yn mhlith ei gyd-ddynion yn y gymmydogaeth. Undodwr oedd o ran ei farn grefyddol, Undodwr o ddygiad i fyny, Undodwr oedd ei dad, hefyd ei daid, yr hwn oedd un o sylfeinwyr yr achos Undodaidd yn Nghapelygroes, yn cydweithio ac yn cyd-ddyoddef a David Jenkin Rees o Lloydjack a'r Parch. John James, yr hwn wedi hyny a symmudodd i Gellionen. Yr oedd Mr. John Jenkins yn un o ddiaconiaid Capelygroes, ac yn wir ffyddlon yn nghyflawniad ei ddyledswyddau fel y cyfryw. Teimlir colled nid bychan ar ei ol, ond gobeithio y cyfyd rhyw un yn ei le a fyddo'n gyffelyb ei wasanaeth ac yn teimlo cyffelyb ddyddordeb yn llwyddiant yr achos yn yr eglwys hon—un o'r eglwysi Undodaidd cyntaf yn Sir Aberteifi—yn broffesedig felly. Yr oedd John Jenkins hefyd, ac y mae rhai o'r teulu etto, o nifer prif gefnogwyr cynnulleidfa y Cribin, i'r hon y mae y brawd ieuanc, Mr. David Evans, ar hyn o bryd yn gweini. Mae yr eglwys hon, fel y rhan amlaf o eglwysi ereill, wedi bod yn brofiadol o drai a llanw o herwydd marwolaethau ac amryw achosion ereill. Claddwyd yr ymadawedig John Jenkins y dydd Sadwrn ar ol ei farwolaeth, sef Chwefror y 18fed, yn Nghapelygroes, lle y mae torf fawr o'i berthynasau a'i gyfeillion yn gorphwys yn barod. Yr oedd ei angladd yn un o'r gorymdeithiau mwyaf a welwyd yn y gymmydogaeth erioed. Yn y ty cyn cychwyn darllenwyd a gweddiwyd gan y Parchn. T. T. a David Evans, ac wrth y drws gweddiwyd gan y Parch. John Davies. Cyflawnwyd y gwasanaeth yn y capel gan y Parch. R. C. Jones, ac ar lan y bedd gan y gweinidog. Traddodwyd y bregeth angladdol yn Nghapelygroes dydd Sul, Mawrth yr 11eg, gan y Parch. T. T. Doethineb a chariad y Tad Mawr fyddo'n gymhorth a chysur i'w weddw a'i blant yn ystod eu hymdaith ar ei hol.

Chwefror 16, Sarah, merch Watkin ac Anne Davies, Dryslwyn, yn un mis oed. Claddwyd y fechan y Llun canlynol yn mynwent Caeronen, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan R. C. Jones.

Dydd Gwener, Chwefror y 24ain, yn 79 oed, ac yn dra disyfyd, bu farw Thomas Howells, Berthlwyd, ger Llanbedr. Claddwyd ef y dydd Mawrth canlynol yn mynwent Llanbedr. Pregethodd y Parch. T. T. yn y ty. Yr oedd yr ymadawedig gynt yn aelod o gynnulleidfa y Cribin, ond yr oedd wedi ymuno yn ddiweddar a'r Bedyddwyr. Dywedai ei nai, y Parch. R. C. Jones wrthyf, fod ei ewythr yn gwybod y ffordd i *fyw* yn grefyddol yn lled dda, er nad oedd yn gwybod rhyw lawer am grefydd fel *theory*. Wel, bywyd iawn yw y prif beth.

Mawrth 10, y tawel a'r amyneddgar Howell John, yn 35 oed, o'r *cancer*. Yr oedd Mr. John yn fab i Mr. Hopkin John, Ynysmeudwy; un o golofnau Gellionen er ys blynyddoedd lawer. Bu yr ymadawedig yn ffyddlon iawn yn Gellionen hyd amser ei glafychiad. Nid oedd ei le ef byth yn wag tra yn alluog i fyned i'r cwrdd. Bu yn ddiwyd iawn mewn cyssylltiad â chaniadaeth y cyssegr. Oddeutu blwyddyn a hanner yn ol aeth y brawd i Lundain i un o'r yspyttai er myned dan *operation*, ond yr oedd y cwbl yn ofer. Gwyddai na allasai fyw yn hwy nâ dwy flynedd ar ol hyny, etto, meddiannodd ddewrder ac amynedd rhyfeddol pan yn edrych yn mlaen at ddydd ei ddattodiad. Y peth pwysig yw bod yn *barod* erbyn marw, meddai wrth ei berthynasau a'i

gyfeillion. Dywedwn ninau, Amen. Mawrth 14eg, hebryngwyd yr hyn oedd farwol o'r brawd i gladdfa Gellionen, pan y daeth torf fawr i dalu y gymmwynas olaf iddo. Fel arwyddocad o barch i'r brawd tynodd preswylwyr y tai ger yr heol o Ynysmeudwy i Bontardawe orchuddion eu ffenestri i lawr. Yn y capel gweinyddodd gweinidog y lle, yn cael ei gynnorthwyo gan y Parchedigion Davies, Tabernacl (A.), a Walters, Rhydyfro (A.). Caffed y perthynasau oll allu i sylweddoli nad yw y brawd wedi marw, ond wedi symmud gam yn uwch.

Mawrth 12, gyrwyd ardal Craigtrebanos i lwfrdra trwy daeniad y newydd fod Mr. David Bowen, un o hen breswylwyr parchus y lle, wedi cyfarfod â'i angeu trwy syrthiad carreg arno pan yn dylyn ei alwedigaeth fel glowr yn nghlofa Craigola. Gosodai y brawd ei dalcen mewn trefn er mwyn dyfod allan yn gynnar i angladd Mr. Evans, gynt gweinidog Gellionen, pan yn ddisymwth daeth y garreg i lawr. Yr oedd Mr. Bowen yn ddiacon a *thrustee* yn Gellionen. Yr hyn a allodd i hyrwyddo llwyddiant yr achos Undodaidd yn Gellionen, efe a'i gwnaeth. Yr oedd Mr. Bowen bob amser yn bresenol yn y gwahanol oedfaon, nid oedd dim a'i rhwystrai. Mor fawr, gan hyny, y teimlwn ei golled, ond pa faint mwy y teimla ei weddw a'i 12 plentyn eu colled pan yr ystyriwn ei fod wedi gwneuthur ei oreu drostynt yn mhob ystyr. Ar y 15fed, daeth torf luosog i hebrwng ei weddillion marwol i gladdfa Gellionen. Yn y capel gwasanaethodd y Parchedigion Davies, Pontardawe (A.), Walters, Rhydyfro (A.), a gweinidog y lle. Nos Sul cyn ei farwolaeth, annogodd Mr. Bowen aelodau y Graig i bresenoli eu hunain yn wylnos Mr. H. John, Ynysmeudwy, ac ychwanegodd, nad oedd un o honom yn sicr a gaem weled *yfory* drwyddo. Rhyfeddol, onide, na welodd y *siaradwr* yfory drwyddo. Bydded coffadwriaeth am rinweddau Mr. Bowen fod yn falm i'r weddw a'r amddifaid, a bydded iddynt gofio fod yr Arglwydd yn teyrnasu tu hwnt fel tu yma i'r Iorddonen. Gwyn eu byd y rhai y mae yr Arglwydd yn Dduw iddynt.

Mawrth 13, yn 8 mlwydd oed, ar ol byr gystudd, Mary, merch John a Mary Hughes, saer cerbydau. Gadawodd dad a mam a phedair chwaer mewn galar dwys ar ei hol, yn nghyd â llawer o berthynasau. Dydd Sadwrn, yr 17eg, gweinyddwyd yn y tŷ gan y Parch. David Davies (T.C.), Bethania, a chychwynwyd gyda llawer o gyfeillion i gladdfa Rhydygwin. Llefarwyd yn y capel ac ar lan y bedd gan y Parch. Wm. Rees.

Y mae genym i'w gyflawnu y gorchwyl anhyfryd o gofnodi y ffaith i hen gyfaill mynwesol, tawel, ac heddychol roddi y ffarwel olaf â'r byd hwn i'w briod, ei blant, ac ereill oeddynt anwyl ganddo, ar y 14eg o Fawrth, yn Penygraig, Plwyf Llanfabon, yn 72 oed, sef Rees Evans. Amaethwr ac un o feibion y diweddar Rees Evans, Toncoch, ger Aberdar, oedd yr ymadawedig, yr hwn, fel ei dad parchus, oedd yn hoff ganddo ddarllen, myfyrio, a chyfansoddi yn achlysurol ddarnau o farddoniaeth ddyfyr a swynol, y rhai sydd ar gof a chadw gan lawer o'i gymdeithion. Daeth lluaws o'r cyfryw, ei berthynasau a'i gyfeillion i'w angladd ar yr 17eg, yr hon gychwynodd o'r tŷ oddeutu dau o'r gloch i fynwent Eglwys Llanfabon, lle y gosodwyd "y pridd i'r pridd, a'r llwch i'r llwch," mewn gwir ddyogel obaith am fyd a bywyd gwell. Nerth a gaffo ei anwyliaid i ymdawelu dan law y Tad Nefol, ac yn ei gariad, yn ngwyneb cael eu hamddifadu o hono dros enyd.

Ebrill 4, John Owen, Bee Hive, gynt o'r Bruce Hotel, Dowlais, yn 65 oed. Yr oedd yr ymadawedig yn enedigol o Lechryd, Sir Aberteifi, ond daeth i Forganwg pan yn lled ieuanc, ac ymbriododd â merch i'r diweddar Benjamin Thomas, yr hwn a fu am yspaid maith yn ddiacon ffyddlon yn Hen-Dy-Cwrdd y Cefn, yr hon sydd yn awr wedi ei gadael yn weddw i alaru ei cholled. Dyn o gymmeriad unplyg oedd John Owen, yn weithgar gyda phob mudiad er lles y werin. Yn moreu ei fywyd bu yn *Chartist* gwresog, a pharhaodd drwy ei oes yn Ryddfrydwr ag oedd yn foddlon gwneyd aberth dros yr hyn a gredai. Mynychai gyfarfodydd er ethol yr aelod newydd dros Ferthyr, a hyny ar y nosweithiau mwyaf oer yn y Gauaf, pan y dylasai, mewn gwirionedd, fod yn ei wely. Dydd Sadwrn canlynol, claddwyd ei weddillion yn mynwent y Pant, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. N. R. Williams, Merthyr.

---

*Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.*

## AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU (i'r hen Olygydd hyd Nadolig).—J.J., Llandilo; D.H., Ciliau; T.D., Dolbwba; D.D., Lampeter; D.T., Liverpool; D.T., Treorci. D.S.—Mae rhai taliadau etto yn ddyledus.

TALIADAU.—Miss J., Wern; Rev. T.Ll.J., Liverpool; Rev. J. E. Manning; T.D., Dolbwba; T.H., Llwyn; T.Ll., Porthcawl; J.J., Quakers' Yard; D.H., Pontsticyll; Mrs. H., Gilfach Goch; W.J., Wig; R.W., Cefncoed; R.G., Cwmavon; T.J., Penboyr; D.T., Liverpool; D.E., Ystrad; E.T., Cwmbach; J.J., Tonypandy.

---

☞ Anfoner pob gohebiaeth at y Golygydd,

J. HATHREN DAVIES,
CEFNCOED,
NR. MERTHYR TYDVIL.

---

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Cefn* Post Office, ac yn enw J. H. Davies, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

---

## CAPEL CRIBIN, SIR ABERTEIFI.

D. Thomas, Bryncessig, 5s.; E. Evans, Pantycelyn, 1s. 6ch.; Mary Jenkins, Abercerdinen, 2s. 6ch.; David Phillips, St. Clears, 5s.; John Evans, Penybryn, 1s.; Thomas Jenkins, etto, 1s.; Esther Lloyd, etto, 1s.; M. Rees, etto, 6ch.; Jenkin Evans, Cwmynach, 2s.

---

## TRYSORFA ADDYSG Y DYNION IEUAINC.

Pob Tanysgrifiadau i'w hanfon i Rev. R. C. JONES, Lampeter

Mr. James Evans, Dowlais ... ... ... ... 3s.

---

## LLAWLYFR YR UNDODWR, PRIS 6CH.

Anfoner at D. Evans, Llanwnen, Llanybyther.

---

## EMYNAU O FAWL A GWEDDI.

Anfonir copi (*specimen*) rhwym yn rhydd gyda'r *post* am 2s.